Y Comisiwn Etholiadol

Cais am achrediad fel sefydliad sy'n sylwedydd etholiadol

Ffurflen yw hon i alluogi sefydliad i wneud cais am gael bod yn sefydliad sy'n sylwedydd etholiadol achrededig. Galluogir y Comisiwn i achredu sylwedyddion etholiadol o dan Adran 6D, Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

Gall unrhyw sefydliad wneud cais am gael bod yn sefydliad sy'n sylwedydd etholiadol. Fel canlyniad gall sefydliadau achrededig enwebu unrhyw un dros 16 oed i fod yn sylwedydd.

Y gofynion ar gyfer achrediad ac enwebiad

Rhaid i bob sefydliad lenwi ffurflen gais. Rhaid i'r sefydliad hefyd enwebu'i sylwedyddion arfaethedig ar y ffurflen sydd ynghlwm, 'Enwebu sylwedyddion gan sefydliad sy'n sylwedydd achrededig'.

Rhaid i'r cais gael ei lofnodi ar ran y sefydliad. Rhaid i'r sefydliad gyflwyno enw a dyddiad geni pob Sylwedydd Enwebedig. Hefyd rhaid i bob Sylwedydd Enwebedig lofnodi a dyddio'r Datganiad gan Sylwedydd Enwebedig. Os bydd eu hangen, bydd ffurflenni ychwanegol ar gael gan y Comisiwn.

Ni all sefydliadau gynnwys unrhyw un ar eu rhestr o Sylwedyddion Enwebedig sydd wedi'i gael yn euog o arferion etholiadol llygredig neu anghyfreithlon unrhyw le yn y Deyrnas Unedig, yn ystod y bum mlynedd flaenorol hyd at ddyddiad y cais, neu sydd, yn ôl y wybodaeth sydd gan y sefydliad wedi'i gael yn euog o drosedd etholiadol unrhyw le yn y byd, yn ystod y bum mlynedd flaenorol hyd at ddyddiad y cais. Yn ogystal gellir gwrthod y cais, os bydd y sefydliad yn cynnwys ar ei restr o unigolion enwebedig, unrhyw un y diddymwyd ei statws fel sylwedydd achrededig neu unigolyn enwebedig sy'n perthyn i sefydliad achrededig, yn y Deyrnas Unedig gan y Comisiwn.

Rhaid anfon ffotograff digidol o bob sylwedydd gyda'r rhestr o Sylwedyddion Enwebedig i'w ddefnyddio ar fathodyn adnabod, neu raid i Sylwedydd Enwebedig fynd i swyddfa ddynodedig y Comisiwn i gael tynnu llun.Rhaid anfon adnabyddiaeth ffotograffig ar gyfer pob Sylwedydd Enwebedig a fydd yn

cadarnhau eu henw a'u hoedran. Dylid arwyddo'r rhain gan awdurdod addas o'r llywodraeth a gall y Comisiwn gynghori ar ba ddulliau adnabod fydd yn addas. Dewis arall yw cyflwyno'r dulliau adnabod mewn swyddfa ddynodedig y Comisiwn er mwyn eu gwirio.

Prosesu

Bydd y Comisiwn yn derbyn ceisiadau yn ei swyddfeydd yn Belfast, Caerdydd, Caeredin a Llundain yn ystod oriau busnes arferol, neu drwy'r post. Hysbysir yr ymgeiswyr yn ysgrifenedig o benderfyniad y Comisiwn i dderbyn neu wrthod cais, a rhoddir rhesymau dros unrhyw benderfyniad i wrthod cais. Ni fydd yr achrediad yn dod i rym hyd at dri diwrnod ar ôl ei ganiatáu a bryd hynny y bydd enw'r sylwedydd yn ymddangos ar gofrestr y sylwedyddion achrededig.

Y Comisiwn Etholiadol

Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983

Mae gofynion Adran 66 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn cynorthwyo i gynnal cyfrinachedd y bleidlais. Maent yn berthnasol i'r holl sylwedyddion mewn gorsafoedd pleidleisio, wrth ddosbarthu a derbyn papurau pleidleisio drwy'r post a'r cyfrif. Ailgynhyrchir Adran 66 isod yn llawn, er defnydd y sylwebyddion.

Gofyniad cyfrinachedd

66. – (1) Bydd yr unigolion a ganlyn -

(a) pob Swyddog Canlyniadau a phob Swyddog Llywyddu neu'r clerc sy'n mynychu gorsaf bleidleisio,

(b) pob ymgeisydd neu asiant etholiad neu asiant pleidleisio sy'n mynychu hefyd,

(c) pob person sy'n mynychu yng nghyswllt unrhyw un o Adrannau 6A i 6D, Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, yn cadw ac yn cynorthwyo i gadw cyfrinachedd y bleidlais ac ni fyddant, ac eithrio unrhyw ddiben a awdurdodir gan y gyfraith, yn cyfathrebu wrth unrhyw unigolyn cyn i'r bleidlais gau unrhyw wybodaeth ynghylch -

(i) enw unrhyw etholwr neu ddirprwy dros etholwr sydd wedi gwneud cais am bapur pleidleisio neu wedi pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio, neu nad yw wedi gwneud hynny;

(ii) rhif ar gofrestr yr etholwyr unrhyw etholwr, neu ei ddirprwy, sydd wedi gwneud cais am bapur pleidleisio neu wedi pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio

(iii) y marc swyddogol.

(2) Bydd pob un sy'n mynychu cyfrif y pleidleisiau yn cadw neu'n cynorthwyo i gadw cyfrinachedd y bleidlais ac ni fydd yn -

(a) canfod neu'n ceisio canfod wrth gyfrif y pleidleisiau y rhif neu farc adnabod unigryw arall ar gefn unrhyw bapur pleidlais;

(b) cyfleu unrhyw wybodaeth a gasglwyd wrth gyfrif y pleidleisiau ynghylch yr ymgeisydd y rhoddir unrhyw bleidlais iddo ar unrhyw bapur pleidlais penodol.

(3) Ni fydd unrhyw unigolyn -

(a) yn ymyrryd gyda phleidleisiwr wrth gofnodi ei bleidlais, neu'n ceisio gwneud hynny;

(b) fel arall yn sicrhau neu'n ceisio sicrhau gwybodaeth mewn gorsaf bleidleisio ynghylch yr ymgeisydd y mae pleidleisiwr yn yr orsaf honno ar fin pleidleisio drosto neu wedi pleidleisio drosto;

(c) yn cyfleu ar unrhyw bryd wrth unrhyw un unrhyw wybodaeth a sicrhawyd mewn gorsaf bleidleisio ynghylch yr ymgeisydd y mae'r pleidleisiwr yn yr orsaf honno ar fin pleidleisio drosto neu wedi pleidleisio drosto, neu ynghylch y rhif neu farc adnabod unigryw arall ar gefn y papur pleidleisio a roddwyd i bleidleisiwr yn yr orsaf honno;

(ch) cymell pleidleisiwr, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i ddangos ei bapur pleidleisio ar ôl iddo fwrw ei bleidlais er mwyn rhoi gwybod i unrhyw un enw'r ymgeisydd y mae ef wedi pleidleisio drosto neu nad yw ef wedi pleidleisio drosto.

(4) Bydd pob un sy'n mynychu cyfrif y pleidleisiau mewn cysylltiad â dosbarthu neu dderbyn papurau pleidleisio ar gyfer unigolion sy'n pleidleisio drwy'r post yn cynnal ac yn cynorthwyo i gynnal cyfrinachedd y bleidlais ac ni fydd -

(a) ac eithrio rhyw ddiben a awdurdodwyd gan y gyfraith, yn cyfleu, cyn cau'r bleidlais, wrth unrhyw unigolyn wybodaeth a gasglwyd yn y trafodion hynny ynghylch y marc swyddogol; neu

(b) ac eithrio rhyw ddiben a awdurdodwyd gan y gyfraith, yn cyfleu i unrhyw un unrhyw bryd wybodaeth a gasglwyd yn y trafodion hynny ynghylch y rhif neu farc adnabod unigryw arall ar gefn y papur pleidleisio a anfonwyd at unrhyw unigolyn;neu

(c) ac eithrio rhyw ddiben a awdurdodwyd gan y gyfraith, ceisio canfod y trafodion mewn cysylltiad â derbyn papurau pleidleisio y rhif neu farc adnabod unigryw arall ar gefn unrhyw bapur pleidleisio; neu

(ch) ceisio canfod y trafodion mewn cysylltiad â derbyn papurau pleidleisio yr ymgeisydd y rhoddir unrhyw bleidlais iddo ar unrhyw bapur pleidleisio penodol neu gyfleu unrhyw wybodaeth mewn perthynas â hynny a gasglwyd yn y trafodion hynny.

(5) Ni all unrhyw unigolyn a gynorthwyodd bleidleisiwr dall i bleidleisio ddweud wrth unrhyw un unrhyw bryd unrhyw wybodaeth ynghylch yr ymgeisydd y bwriada'r pleidleisiwr bleidleisio drosto neu y mae wedi pleidleisio drosto, neu ynghylch y rhif neu farc adnabod unigryw arall ar gefn y papur pleidleisio a roddwyd i'r pleidleisiwr ei ddefnyddio.

(6) Os yw unigolyn yn ymddwyn yn groes i'r adran hon bydd yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol neu i garchariad am gyfnod nad yw'n hwy na 6 mis.

(7) Yn eu cais mewn perthynas ag etholiad aelodau Llundain yng Nghynulliad Llundain mewn unrhyw etholiad cyffredin, bydd darpariaethau blaenorol yr adran hon yn dwyn effaith wrth gynnwys, ar ôl y geiriau 'ynghylch yr ymgeisydd', ym mhob man y mae'n codi', neu'r blaid wleidyddol gofrestredig tuag at ddychwelyd eu hymgeiswyr.'

(8) Mewn perthynas ag etholiad aelodau Llundain yng Nghynulliad Llundain mewn unrhyw etholiad cyffredin, bydd unrhyw gyfeiriad yn yr adran hon at ddychwelyd ymgeiswyr plaid wleidyddol gofrestredig yn cyfeirio at ddychwelyd ymgeiswyr sydd wedi'u cynnwys yn y rhestr ymgeiswyr a gyflwynwyd gan y blaid wleidyddol gofrestredig er dibenion yr etholiad.

Y Comisiwn Etholiadol

Y Cais

Enw	
Cyfeiriad	
Cyfeiriad yn y DU os yn wahanol i'r uchod	
Rhif ffôn (gan gynnwys cod y wlad os yn gymwys)	
Rhif ffôn symudol (rhaid i ymgeiswyr o dramor sydd heb rif cyswllt yn y DU roi rhif symudol sy'n gweithio dramor)	
Cyfeiriad e-bost	

Y Comisiwn Etholiadol

Ail enw cyswllt	
Cyfeiriad (os yn wahanol i'r cyswllt cyntaf)	
Cyfeiriad yn y DU (os yn wahanol i'r uchod)	
Rif ffôn (gan gynnwys cod y wlad os yn gymwys)	
Rhif ffôn symudol	
Cyfeiriad e-bost	
Cyfnod yr achrediad	O ...../...../..... hyd at...../...../.....

Y Comisiwn Etholiadol

Datganiad gan y sefydliad

Rhaid i'r datganiad hwn gael ei lofnodi a'i ddyddio gan lofnodwr awdurdodedig y sefydliad.

Cyn belled ag y gwn i, mae'r manylion ar y ffurflen hon yn ddilys a chywir. Rhoddaf ganiatâd i'r Comisiwn gynnwys enw'r sefydliad ac enwau ein Sylwedyddion Enwebedig ar gofrestr y Comisiwn o sylwedyddion achrededig.

Rwyf wedi darllen a deall ' Y cod ymddygiad ar gyfer sefydliadau sy'n sylwedyddion etholiadol' y Comisiwn ac mae ……yn cytuno i lynu wrth y Cod.

Ar gyfer pob Sylwedydd Enwebedig byddaf yn darparu copi o Adran 66, Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 neu'i darpariaeth gyfatebol, yn sicrhau eu bod yn deall ei darpariaethau a'u cyfarwyddo i gynorthwyo i gynnal cyfrinachedd y bleidlais yn etholiadau'r DU.

Cyn belled ag y gwn i, ni chafwyd yr un sylwedydd a enwebwyd gan y sefydliad hwn yn euog o drosedd etholiadol unrhyw le'n y byd yn ystod y bum mlynedd hyd at ddyddiad y cais. Ni chafodd yr un sylwedydd a enwebwyd gan y sefydliad hwn ei adrodd na'i gael yn euog o arferion etholiadol llygredig neu anghyfreithlon unrhyw le yn y Deyrnas Unedig yn ystod y bum mlynedd hyd at ddyddiad y cais.

Llofnod _____

Dyddiad _____

Y Comisiwn Etholiadol

Enwebu sylwedyddion gan sefydliad sy'n sylwedydd achrededig

Y Sefydliad sy'n enwebu sylwedyddion:

Manylion am y Sylwedyddion Enwebedig

Enw	Dyddiad geni

Y Comisiwn Etholiadol

Datganiad gan Sylwedydd Enwebedig

Rhaid i bob Sylwedydd Enwebedig lofnodi a dyddio'r datganiad hwn

Rwyf wedi darllen a deall 'Y Cod ymddygiad ar gyfer sefydliadau sy'n sylwedyddion etholiadol' y Comisiwn a chytunaf i lynu wrth y Cod hwn.

Datganaf fy mod wedi derbyn copi o Adran 66 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 neu'i darpariaeth gyfatebol, deallaf ei darpariaethau a byddaf yn cynorthwyo i gynnal cyfrinachedd y bleidlais yn etholiadau'r DU.

Ni chafwyd adroddiad amdanaf na'm cael yn euog o arferion etholiadol llygredig neu anghyfreithlon yn unrhyw le yn y Deyrnas Unedig yn ystod y bum mlynedd hyd at ddyddiad yr enwebiad hwn. Ni'm cafwyd yn euog o unrhyw drosedd etholiadol yn unrhyw le yn y byd yn ystod y bum mlynedd cyn dyddiad yr enwebiad.

Llofnod _____

Dyddiad _____

Y Comisiwn Etholiadol

Datganiad gan Sylwedydd Enwebedig

Rhaid i bob Sylwedydd Enwebedig lofnodi a dyddio'r datganiad hwn

Rwyf wedi darllen a deall 'Y Cod ymddygiad ar gyfer sefydliadau sy'n sylwedyddion etholiadol' y Comisiwn a chytunaf i lynu wrth y Cod hwn.

Datganaf fy mod wedi derbyn copi o Adran 66 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 neu'i darpariaeth gyfatebol, deallaf ei darpariaethau a byddaf yn cynorthwyo i gynnal cyfrinachedd y bleidlais yn etholiadau'r DU.

Ni chafwyd adroddiad amdanaf na'm cael yn euog o arferion etholiadol llygredig neu anghyfreithlon yn unrhyw le yn y Deyrnas Unedig yn ystod y bum mlynedd hyd at ddyddiad yr enwebiad hwn. Ni'm cafwyd yn euog o unrhyw drosedd etholiadol yn unrhyw le yn y byd yn ystod y bum mlynedd cyn dyddiad yr enwebiad.

Llofnod _____

Dyddiad _____

Y Comisiwn Etholiadol

Datganiad gan Sylwedydd Enwebedig

Rhaid i bob Sylwedydd Enwebedig lofnodi a dyddio'r datganiad hwn

Rwyf wedi darllen a deall 'Y Cod ymddygiad ar gyfer sefydliadau sy'n sylwedyddion etholiadol' y Comisiwn a chytunaf i lynu wrth y Cod hwn.

Datganaf fy mod wedi derbyn copi o Adran 66 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 neu'i darpariaeth gyfatebol, deallaf ei darpariaethau a byddaf yn cynorthwyo i gynnal cyfrinachedd y bleidlais yn etholiadau'r DU.

Ni chafwyd adroddiad amdanaf na'm cael yn euog o arferion etholiadol llygredig neu anghyfreithlon yn unrhyw le yn y Deyrnas Unedig yn ystod y bum mlynedd hyd at ddyddiad yr enwebiad hwn. Ni'm cafwyd yn euog o unrhyw drosedd etholiadol yn unrhyw le yn y byd yn ystod y bum mlynedd cyn dyddiad yr enwebiad.

Llofnod _____

Dyddiad _____

Y Comisiwn Etholiadol

Datganiad gan Sylwedydd Enwebedig

Rhaid i bob Sylwedydd Enwebedig lofnodi a dyddio'r datganiad hwn

Rwyf wedi darllen a deall 'Y Cod ymddygiad ar gyfer sefydliadau sy'n sylwedyddion etholiadol' y Comisiwn a chytunaf i lynu wrth y Cod hwn.

Datganaf fy mod wedi derbyn copi o Adran 66 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 neu'i darpariaeth gyfatebol, deallaf ei darpariaethau a byddaf yn cynorthwyo i gynnal cyfrinachedd y bleidlais yn etholiadau'r DU.

Ni chafwyd adroddiad amdanaf na'm cael yn euog o arferion etholiadol llygredig neu anghyfreithlon yn unrhyw le yn y Deyrnas Unedig yn ystod y bum mlynedd hyd at ddyddiad yr enwebiad hwn. Ni'm cafwyd yn euog o unrhyw drosedd etholiadol yn unrhyw le yn y byd yn ystod y bum mlynedd cyn dyddiad yr enwebiad.

Llofnod _____

Dyddiad _____